SFJCCAH2

Rheoli adferiad cymunedol wedi argyfyngau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chefnogi adferiad cymunedau wedi argyfyngau. Mae'n cynnwys cymryd camau i atal effeithiau argyfyngau rhag esgaladu a sicrhau bod adferiad parhaus yn derbyn sylw yn ystod ymatebion. Mae hefyd yn cynnwys nodi cyngor, cyllido a chymorth arall perthnasol, a chefnogi unigolion a sefydliadau i reoli eu hadferiad parhaus eu hunain.

Grŵp Targed
Mae'r safon hon ar gyfer y rhai sy'n rheoli gwaith gyda chymunedau i gefnogi eu hadferiad wedi argyfyngau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi'r rhai y mae argyfyngau wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion, sefydliadau a grwpiau agored i niwed, yn unol â gofynion sefydliadol
2. nodi effeithiau argyfyngau ar gymunedau a'r amgylchedd, yn unol â gofynion sefydliadol
3. hyrwyddo ystyriaethau adferiad tymor hwy mewn ymateb i argyfyngau yn unol â gofynion sefydliadol
4. cymryd camau, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, i atal effeithiau argyfyngau rhag esgaladu, yn unol â gofynion sefydliadol
5. ymgysylltu â sefydliadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a allai gyfrannu at ymdrechion ymadfer, neu at adfer gwasanaethau yn unol â gofynion sefydliadol
6. cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gydag unigolion a sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag ymateb ac adferiad, yn unol â gofynion sefydliadol
7. ymgynghori â chymunedau yr effeithiwyd arnynt gan argyfyngau, yn unol â gofynion sefydliadol
8. cefnogi unigolion a sefydliadau i reoli eu hadferiad yn unol â gofynion sefydliadol
9. cadarnhau y darperir gwybodaeth a chyngor ar y camau sy'n cael eu cymryd i unioni effeithiau argyfyngau, yn unol â gofynion sefydliadol
10. cytuno ar y camau gweithredu sy'n ofynnol a'u blaenoriaethu yn ystod prosesau ymadfer, yn unol â gofynion sefydliadol
11. ystyried goblygiadau cyllidebol ac ariannol prosesau ymadfer, yn unol â gofynion sefydliadol
12. ceisio'r cyngor, yr ariannu a'r cymorth sy'n angenrheidiol i gefnogi gwaith ymadfer yn unol â gofynion sefydliadol
13. gwirio bod y pontio rhwng arweinyddiaeth a chyflwyno gwasanaeth yn ystod gwahanol gyfnodau ymateb ac adferiad yn cael ei gyfathrebu a'i ddeall, yn unol â gofynion sefydliadol
14. darparu gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer apeliadau neu gofebau, yn unol â gofynion sefydliadol
15. nodi ble gellid gwella systemau, gwasanaethau neu seilwaith i ddiwallu anghenion y dyfodol, yn unol â gofynion sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. rolau a chyfrifoldebau sefydliadau partner sy'n ymwneud ag ymateb ac adferiad ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol
2. sut mae sefydliadau partner yn cael eu trefnu; eu strwythurau cyffredinol, eu dulliau cyfathrebu a'u prosesau gwneud penderfyniadau
3. cynlluniau a threfniadau argyfwng
4. nodweddion ardaloedd a all ddylanwadu ar effeithiau argyfyngau, gan gynnwys: 4.1 nodweddion cymdeithasol, yn cynnwys grwpiau arbennig o agored i niwed 4.2 statws iechyd y gymuned a'r cyfleusterau iechyd sydd ar gael 4.3 nodweddion amgylcheddol ardaloedd 4.4 statws economaidd ardaloedd 4.5 seilwaith ardaloedd, gan gynnwys safleoedd, gwasanaethau neu rwydweithiau cyflenwi hollbwysig 4.6 safleoedd a allai fod yn beryglus mewn ardaloedd a'u perthynas â chymunedau neu safleoedd sy'n amgylcheddol sensitif
5. y mathau o effeithiau y gall fod angen i unigolion a chymunedau sicrhau adferiad yn eu sgîl, gan gynnwys: 5.1 cymdeithasol 5.2 iechyd 5.3 economaidd 5.4 effeithiau amgylcheddol 5.5 y rhai y mae argyfyngau wedi effeithio arnynt
6. anghenion unigolion y mae argyfyngau wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a sut gall y rhain newid dros amser
7. effeithiau posibl argyfyngau ar bobl a grwpiau agored i niwed, yn cynnwys: 7.1 diffiniadau o fod yn agored i niwed yng nghyd-destun argyfyngau 7.2 materion sy'n benodol i grwpiau agored i niwed
8. sut mae cyfathrebu ag unigolion y mae argyfyngau wedi effeithio arnynt, mewn modd sy'n hybu dealltwriaeth
9. sut mae sicrhau bod ystyriaethau adferiad tymor hwy yn cael eu hymgorffori i'r ymatebion i argyfyngau
10. sut mae atal effeithiau argyfyngau rhag esgaladu
11. sut mae grymuso unigolion, sefydliadau a chymunedau i reoli eu hadferiad eu hunain
12. sefydliadau, grantiau a chynlluniau ariannu sy'n gallu cynorthwyo gydag adferiad wedi argyfyngau
13. trefniadau ar gyfer rheoli arian a gyfrannwyd gan y cyhoedd mewn ymateb i argyfyngau
14. deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig sy'n berthnasol i adferiad wedi argyfyngau

Ymddygiadau

Isod rhestrir y prif ymddygiadau generig y mae angen eu cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u nodi'n benodol/yn ddealledig yng nghynnwys manwl yr uned, ac fe'u rhestrir yma ar ffurf gwybodaeth ychwanegol:

1 natur gydweithredol
2 ystyriaeth gymunedol
3 bod yn adeiladol
4 bod yn benderfynol
5 meddu ar empathi
6 bod yn hyblyg
7 bod yn realistig

Sgiliau

Isod rhestrir y prif sgiliau generig y mae angen eu cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u nodi'n benodol/yn ddealledig yng nghynnwys manwl yr uned, ac fe'u rhestrir yma ar ffurf gwybodaeth ychwanegol:

1 cyfathrebu
2 ymgynghori
3 dylanwadu
4 cysylltu
5 ysgogi
6 cyd-drafod
7 rhwydweithio
8 trefnu
9 blaenoriaethu
10 rheoli prosiectau
11 arweinyddiaeth

Geirfa

Termau a ddefnyddir yn aml a sut dylid eu dehongli yng nghyd-destun SGC Hapddigwyddiadau Sifil:

**Cymuned **
Unigolion a sefydliadau mewn ardaloedd lleol, gan gynnwys oedolion, plant a phobl ifanc, pobl agored i niwed, cartrefi preswyl, busnesau ac ati.

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r uned hon yn gysylltiedig â'r canlynol:

1 CCAA1 Gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill
2 CCAA2 Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill
3 CCAF2 Rhybuddio, hysbysu a chynghori'r gymuned pan fydd argyfyngau
4 CCAH1 Darparu cefnogaeth barhaus i ddiwallu anghenion unigolion y mae argyfyngau'n effeithio arnynt
5 MLF1 Rheoli prosiect
6 MLF2 Rheoli rhaglen o brosiectau sy'n cydweddu

Rheoli adferiad cymunedol wedi argyfyngau

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Dyddiad cymeradwyo	30 Tach 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Tach 2019
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Sgiliau er Cyfiawnder
RCU gwreiddiol	SFJCCAH2
Galwedigaethau perthnasol	Diffoddwyr tân, Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithwyr iechyd proffesiynol, Swyddogion yr Heddlu, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
Cyfres/Set	Hapddigwyddiadau Sifil
Geiriau Allweddol	cydweithio; rhannu; rhybuddio; hysbysu; rheoli; argyfwng; argyfyngau; rheoli argyfyngau; cynllunio